# PWYLLGOR SAFONAU 23-10-07

**Yn bresennol:** Mr J.P. Pollard (Cadeirydd);

**Aelodau Etholedig:** Y Cynghorwyr Wyn Myles Meredith, Morgan L. Vaughan,
.
**Aelodau Annibynnol:** Dr R.T. Ellis, Gwilym Ellis Evans a Mr Sam Soysa.

**Hefyd yn bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Glyn Owen a Mr Malcolm Jones.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Y Cynghorydd Morgan L. Vaughan fuddiant personol ag eitem 6 ar y rhaglen, (Cais am ollyngiad i Lywodraethwyr Ysgolion) – oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol Gynradd Aberdyfi.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2006 fel rhai cywir.

### MATER YN CODI

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at gynhadledd i aelodau'r Pwyllgor Safonau gan nodi na chynhaliwyd un hyd yma eleni. Eglurodd na fu'n bosib trefnu cynhadledd oherwydd oedi gyda'r gwaith o gyhoeddi'r Côd Ymddygiad newydd . Ychwanegodd y swyddog mai'r bwriad bellach yw cynnal cynhadledd o gwmpas mis Medi 2008. Bydd yr amserlen yma yn golygu y bydd gan y Cyngor beth profiad o weithio gyda'r côd newydd cyn cynnal y gynhadledd.

**PENDERFYNWYD** derbyn y wybodaeth.

## 3. CAIS AM OLLYNGIAD GAN AELOD YN CYNRYCHIOLI'R CYNGOR AR Y BWRDD IECHYD LLEOL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar gais y Cynghorydd John Wyn Williams am ollyngiad.

Eglurwyd fod y Cynghorydd yn cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd ac y gallasai sefyllfa godi pryd y byddai ganddo fuddiant personol wrth gymryd rhan ym musnes y Cyngor oherwydd ei aelodaeth o'r Bwrdd Iechyd Lleol neu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Iechyd Lleol oherwydd ei aelodaeth o Gyngor Gwynedd.

Byddai'r buddiant sy'n codi oherwydd ei aelodaeth o'r naill gorff neu'r llall yn codi dan baragraff 12 o gôd ymddygiad y Cyngor. Golygai hyn y byddai ganddo'r hawl i siarad ond nid i bleidleisio. Ychwanegodd y Swyddog Priodoldeb fod y Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn â'r sefyllfa yma, a chyflwynwyd gwybodaeth fanwl i'r aelodau. 'Roedd y canllawiau'n cadarnhau y gall y Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiad i alluogi aelodau i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor a thrafodaethau'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Dywedodd y Swyddog Priodoldeb y dylid cofio mai gollyngiad dan gôd ymddygiad y Cyngor fyddai hyn, ac y byddai'n rhaid i'r aelod, mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd Iechyd, gydymffurfio â gofynion ymddygiad y corff hwnnw ynglŷn â datgelu buddiannau. Cadarnhawyd fod y Pwyllgor Safonau wedi caniatáu ceisiadau tebyg o'r blaen.

Cytunodd yr aelodau fod gollyngiad wedi ei ganiatáu i gynghorwyr yn gwasanaethu ar y Bwrdd Iechyd Lleol yn y gorffennol, ac mai teg fyddai parhau gyda'r drefn yma.

**PENDERFYNWYD Caniatáu cais y Cynghorydd John Wyn Williams, o dan baragraffau 2(c) a 2(ch) (paragraffau 2(c) and 2 (d) yn y fersiwn Saesneg) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001. Bydd hyn yn ei alluogi i bleidleisio mewn cyfarfodydd o bwyllgorau'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol pan fydd ganddo fuddiant personol dan gôd ymddygiad y Cyngor oherwydd ei aelodaeth o'r naill gorff neu'r llall.**

## 4. CAIS AM OLLYNGIAD I LYWODRAETHWYR YSGOLION

Adroddodd y Swyddog Monitro fod Cyngor Gwynedd, ar hyn o bryd, yn adolygu trefniadaeth ysgolion cynradd y sir. Gwneir y gwaith dan arweiniad o'r Pwyllgor Craffu, gyda goruchwyliaeth o'r pwyllgor hwnnw. Caiff adroddiadau eu cyflwyno i'r Bwrdd ac i'r Cyngor llawn.
Y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yw'r pwyllgor craffu priodol erbyn hyn, ac yn gwasanaethu arno mae aelodau etholedig a 5 aelod cyfetholedig sydd â phleidlais.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod gan yr aelodau, sydd hefyd yn lywodraethwyr ysgolion, fuddiant dan baragraff 12 y Côd Ymddygiad. Mewn cyfarfod pan fydd y mater yn cael ei drafod, bydd yn ofynnol iddynt ddatgelu bodolaeth a natur y buddiant ar ddechrau'r drafodaeth. Byddai hawl ganddynt i siarad ar y mater, ond nid i bleidleisio arno.

Ymhelaethodd y swyddog fod cais tebyg am ollyngiadau wedi ei gwneud ym mis Hydref 2005 ar ran yr aelodau o Gyngor Gwynedd a'r aelodau cyfetholedig hynny o'r Pwyllgor Craffu Datblygu oedd â phleidlais (y pwyllgor priodol ar y pryd). Er i'r pwyllgor ganiatáu'r gollyngiad, nid yw'n ymestyn i drafodaethau ar ysgolion penodol lle mae'r aelodau'n gwasanaethu ar y bwrdd llywodraethu.

Fodd bynnag, gwnaed penderfyniad pellach yn rhoi hawl i'r mater gael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Safonau pe byddai'r drefn yn llesteirio'r gallu i wneud penderfyniadau. Ychwanegodd y swyddog y bydd y cynllun i ail-drefnu addysg gynradd Gwynedd yn cael ei ystyried fel un pecyn yn ei gyfanrwydd. Enwir pob ysgol gynradd o fewn y sir yn yr adroddiad, ac o ystyried hyn, 'roedd y Swyddog Monitro o'r farn ei bod yn amhosib i'r aelodau ddod i benderfyniad heb i'r gollyngiad gael ei ganiatau.

Mynegwyd peth pryder gan aelodau nad oedd am weld unrhyw aelod, sydd hefyd yn llywodraethwr ysgol gynradd, yn cymryd rhan amlwg mewn trafodaeth pe byddai'n ymdrin yn uniongyrchol â'r ysgol honno. Ychwanegwyd y byddai'r sefyllfa'n gwaethygu pe byddai'r aelod yn digwydd bod yn gadeirydd bwrdd llywodraethu yr ysgol.

Mewn ymateb i ymholiadau pellach, eglurodd y Swyddog Monitro mai Cyngor Gwynedd yw'r unig awdurdod i ymdrin ag ail-drefnu holl addysg gynradd y sir fel un cynllun cyfansawdd. Eglurodd fod amrywiol newidiadau o fewn y cynllun gydag ysgolion ardal yn cael eu creu, ysgolion eraill yn cael eu ffederaleiddio a rhai ysgolion yn cau. Gwelai y byddai'n anodd i'r aelodau weithredu yn unol â phenderfyniad blaenorol y Pwyllgor Safonau.

Datgelwyd ymhellach mai 9 aelod o Gyngor Gwynedd sydd heb fod yn aelod o fwrdd llywodraethu ysgol gynradd. Yn ogystal â hyn mae deg o'r 15 aelod ar y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc hefyd yn aelodau o fwrdd llywodraethu ysgol gynradd. Cadarnhawyd hefyd fod mwy na hanner aelodau Bwrdd y Cyngor yn llywodraethwyr ysgolion cynradd. Pwysleisiodd y Swyddog Monitro y byddai'r sefyllfa yma yn creu pryder o safbwynt y system ddemocrataidd pe na fyddai'r gollyngiad yn cael ei ganiatau.

Derbyniodd aelodau y byddai trafferthion yn codi, ond parhawyd i ddatgan pryder ynglŷn â sefyllfa pryd y byddai aelod yn dadlau dros achos ysgol benodol yr oedd hefyd yn llywodraethwr arni.

**PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad i holl aelodau'r Cyngor ac aelodau cyfetholedig ar Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc y Cyngor, sydd â phleidlais, sy'n aelodau o Gorff Llywodraethol ysgolion cynradd i drafod a phleidleisio ar y cynllun trefniadaeth ysgolion cynradd yn ei gyfanrwydd, ar yr amod na chaiff y llywodraethwyr bleidlais mewn perthynas â chynnig yn ymwneud yn benodol ac unigol â'u hysgol hwy.**

## 5. CAIS AM OLLYNGIAD I AELODAU O'R BWRDD Y LANDLORD CYMDEITHASOL CYMDEITHASOL COFRESTREDIG CYSGODOL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn egluro fod 4 aelod o Gyngor Gwynedd yn cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Cysgodol.

Ymhelaethodd y Swyddog Priodoldeb fod y Cyngor wedi penderfynu cynnal ymgynghoriad ffurfiol gyda'i denantiaid ar y posibilrwydd o drosglwyddo stoc dai'r Cyngor i gorff annibynnol newydd fyddai'n rhedeg ar ffurf Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, sef cymdeithas dai.

Eisoes sefydlwyd Bwrdd ar gyfer cymdeithas o'r fath gyda 12 aelod arno a'r gynrychiolaeth yn gyfartal rhwng y Cyngor, y tenantiaid ac aelodau annibynnol. Cynrychiolwyr y Cyngor ar y Bwrdd yw'r Cynghorwyr Dafydd Iwan (fel Uwch Arweinydd Datblygu), John Wyn Williams, (fel Uwch Arweinydd Gofal) Brian Jones ac Anne Lloyd Jones.

Mae'r ffaith iddynt gael eu penodi fel cynrychiolwyr y Cyngor ar Fwrdd y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Cysgodol yn golygu y byddai ganddynt fuddiant personol dan baragraff 12 y Côd Ymddygiad pe byddai trosglwyddiad y stoc dai yn cael ei drafod mewn unrhyw bwyllgor. Golygai hyn y byddai ganddynt hawl i siarad ond nid i bleidleisio ar y mater.

Cadarnhaodd y Swyddog Priodoldeb bod ceisiadau am ollyngiadau wedi eu gwneud gan y pedwar cynghorydd sy'n aelodau o Fwrdd y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Cysgodol.

Teimlai'r aelodau y byddai'n anodd i'r cynghorwyr wynebu eu gwaith heb y gollyngiad priodol. Gofynnwyd a oedd is-gwmnïau tebyg yn bodoli eisoes, ac eglurodd y Swyddog Monitro fod y cysylltiad gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gyffelybiaeth deg gan nad gwneud elw oedd bwriad y Bwrdd.

Gwnaed ymholiadau ynglŷn â'r sefyllfa a allasai godi pe byddai'r cynghorwyr sy'n gwasanaethu ar Fwrdd y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Cysgodol, hefyd yn

denantiaid i Gyngor Gwynedd. Cadarnhawyd y byddai'r Côd Ymddygiad yn delio â'r sefyllfa yma.

**PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad o dan baragraffau 2(ch) a 2(dd), (paragraffau 2 (d) a 2(f) yn y fersiwn Saesneg) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001 i'r Cynghorwyr Dafydd, Iwan (fel Uwch Arweinydd Datblygu), John Wyn Williams, (fel Uwch Arweinydd Gofal) Brian Jones ac Anne Lloyd Jones i'w galluogi i bleidleisio yn ogystal â siarad pan drafodir y trosglwyddiad stoc tai.**

## 6. CÔD YMDDYGIAD I AELODAU

Adroddodd y Swyddog Monitro fod y Côd Ymddygiad presennol wedi ei gyflwyno gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2001, ond bod ymrwymiad wedi ei wneud i'w adolygu yng ngoleuni profiad llywodraeth leol o'r weithredu.
Sefydlwyd gweithgor aml-asiantaeth yn 2004 i ymgymryd â'r adolygiad ac i baratoi côd drafft newydd. Yn 2005 bu'r côd drafft yn destun ymgynghoriad a chafodd ystyriaeth gan y Pwyllgor Safonau. Yn ddiweddarach paratowyd côd drafft pellach gan y gweithgor, a chyflwynwyd copi i'r pwyllgor.

Adroddodd y Swyddog Monitro nad yw'n ymddangos yn debygol, ar hyn o bryd, y ceir newidiadau sylweddol yn y fersiwn derfynol, ond pwysleisiodd fod y gorchymyn yn ddarostyngedig i gytundeb y Gweinidog perthnasol, sydd heb fod yn rhan o'r broses hyd yma.

Cyflwynwyd y côd drafft, er gwybodaeth i'r pwyllgor, a disgwylir i'r gorchymyn terfynol gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2008, gyda'r côd yn dod i rym ym mis Mai 2008.

Mewn ymateb i gais a wnaed gan aelod, adroddodd y Swyddog Monitro ar y prif newidiadau rhwng y Côd Ymddygiad presennol a'r un newydd sy'n cael ei ystyried. Cyfeiriodd y swyddog yn arbennig at 'ymddygiad preifat' gan nodi mai'r cymal yma oedd yn bennaf gyfrifol am yr oedi gyda chyhoeddi'r Côd.

O safbwynt cyfrifoldeb aelodau i ddatgan diddordeb, eglurodd y swyddog y bydd y Côd Ymddygiad newydd yn gadael mwy i ddisgresiwn yr aelodau. Yn ogystal nododd y bydd llai o gamu hanner ffordd ac y bydd datgan diddordeb a ystyrir yn 'prejudicial interest' yn golygu colli'r hawl i siarad a phleidleisio.

Nodwyd na fyddai angen gynghorwyr cymuned ddatgan diddordeb mewn cysylltiad ag unrhyw fath o gefnogaeth ariannol gan eu Cyngor cymuned i fudiadau gwirfoddol os na fydd y cyfraniad dan sylw yn uwch na £500. Cyfeiriodd aelod at hyn gan nodi fod y sefyllfaoedd yma yn codi'n aml, a bod y rhicyn o £500 yn gwbl deg.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro y bydd holl aelodau'r Cyngor yn derbyn hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad newydd yn dilyn etholiad mis Mai 2008. Ond awgrymodd y gallasai fod o fudd i aelodau'r Pwyllgor Safonau dderbyn hyfforddiant ynghynt.

**PENDERFYNWYD**
**i) nodi'r wybodaeth a derbyn yr adroddiad**
**ii) bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn derbyn hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad newydd yn ystod chwarter cyntaf 2008.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2006-07

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Yr Ombwdsmon 2006-07, sef adroddiad blynyddol cyntaf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Daeth y swydd newydd i fodolaeth ar 1 Ebrill 2006, wedi i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 uno'r pedair swydd ombwdsmon flaenorol.

Cyfeiriodd y Swyddog Priodoldeb at yr hyn a nodir yn Adroddiad yr Ombwdsmon am honiadau dibwys yn erbyn aelodau o gynghorau cymuned, a'r ffaith fod y nifer yn gostwng.

'Roedd yr aelodau'n barod i dderbyn yr adroddiad, ond mynegwyd peth anfodlonrwydd o safbwynt eitem a ymddangosodd yn y wasg yn ddiweddar yn hysbysebu swydd yr Ombwdsmon. 'Roedd aelod yn bryderus gan nad oedd cyfeiriad yn yr hysbyseb at allu ymgeiswyr i siarad Cymraeg na'u parodrwydd i ddysgu'r iaith.

Adroddodd y Swyddog Monitro ei bod wedi cael cyfle i gyfarfod yr Ombwdsmon, a bod yr agwedd at yr Iaith Gymraeg wedi bod yn rhan o'u trafodaeth.

**PENDERFYNWYD**
**i) Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**
**ii) Tynnu sylw Cyngor Gwynedd at anfodlonrwydd y Pwyllgor Safonau gan na chyfeiriwyd at allu ymgeiswyr i siarad Cymraeg na'u parodrwydd i ddysgu'r iaith pan hysbysebwyd swydd yr Ombwdsmon**
**iii) Annog y Cyngor i ysgrifennu at yr Ombwdsmon i ddatgan yr anfodlonrwydd yma.**

## 8. HONIADAU A WNAED YN ERBYN Y CYNGOR

Adroddodd y Swyddog Monitro fod tri honiad wedi eu derbyn oddi wrth yr Ombwdsmon ers y cyfarfod diwethaf. Gwnaed yr honiadau gan yr un unigolyn yn erbyn tri aelod o'r un Cyngor Cymuned.

Yn y tri achos, penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio. Cyflwynwyd crynodebau o'r tri honiad i'r pwyllgor, gan y Swyddog Priodoldeb a thynnwyd sylw at y ffaith fod y rheswm dros beidio ymchwilio'n wahanol ym mhob achos.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

## 9. DIOLCH

Ar derfyn y cyfarfod dywedodd y Cynghorydd Wyn Myles Meredith fod ei gyfnod fel aelod o'r Pwyllgor Safonau yn dirwyn i ben. Diolchodd am y cyfle gan nodi ei fod wedi mwynhau'r profiad o wasanaethu ar y pwyllgor.

Nodwyd ei fod yn un o aelodau cyntaf y pwyllgor, a diolchwyd iddo am ei wasanaeth.